Darganfod
Dadlau
Dewis

—

Discover
Debate
Decide

# Cyfnod Allweddol 3
# Gweithgareddau



## Beth yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru?

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cynnwys 60 o Aelodau Cynulliad o bob rhan o Gymru. Maen nhw'n cael eu hethol gan bobl Cymru i'w cynrychioli nhw a'u cymunedau, i wneud cyfreithiau ar gyfer Cymru, ac i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gwaith yn iawn.

# Gweithgareddau Cyfnod Allweddol 3


**Cyflwyniad** tudalen 2

**01_Dod i adnabod dy Gynulliad di** tudalen 3

Gweithgaredd 01 – Her y Geiriadur
Gweithgaredd 02 – Pwy yw pwy?
Gweithgaredd 03 – Dod o hyd i'ch partner
Gweithgaredd 04 – Llinell Amser y Cynulliad
Gweithgaredd 05 – Cwis rhifau
Atebion – Cwis rhifau

**02_Beth y mae'r Cynulliad yn ei wneud** tudalen 9

Gweithgaredd 01 – 20 Pwnc
Gweithgaredd 02 – A all y Cynulliad wneud deddfau?
Gweithgaredd 03 – Cwis y rhyngrwyd
Gweithgaredd 04 – Deddf newydd

**03_Pwy sy'n fy nghynrychioli i?** tudalen 13

Gweithgaredd 01 – Rhinweddau cynrychiolwr
Gweithgaredd 02 – Pwy sy'n fy nghnrychioli i?
Gweithgaredd 03 – Cwrdd â'ch cynrychiolwyr?
Gweithgaredd 04 – Diwrnod ym mywyd…..

**04_Mae Democratiaeth yn fyw – ocê!** tudalen 17

Gweithgaredd 01 – Dadl dosbarth
Gweithgaredd 02 – Pa mor anodd yw gwneud penderfyniad?
Gweithgaredd 03 – Pleidleisio yn 16 oed?

# Cyflywniad

Bwriad yr adnodd dysgu hwn yw addysgu pobl ifanc yn ein hysgolion uwchradd am Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae dysgu am y Cynulliad Cenedlaethol, yn ogystal â dinasyddiaeth weithgar, yn rhannau pwysig o'r fframwaith ABCh, sydd yn elfen statudol o gwricwlwm ehangach yr ysgol. Mae'r gwaith wedi'i rannu i weithgareddau sy'n addas ar gyfer Cyfnodau Allweddol 3 a 4, ond gall athrawon benderfynu defnyddio'r adnoddau gyda grwpiau o oed gwahanol fel y dymunant. Mae'r gweithgareddau sydd yn y pecyn wedi eu diweddaru o'r Pecyn Ysgolion Uwchradd a gyhoeddwyd o'r blaen.

Bydd y gweithgareddau yn  ateb gofynion canllawiau'r Fframwaith ABCh a gyhoeddwyd yn 2008. Yn benodol, bydd y gweithgareddau yn cyflawni gofynion y sgiliau canlynol:

**Datblygu Meddwl**
**Datblygu Cyfathrebu**
**Datblygu TGCh**
**Datblygu Rhifedd**

Yr agweddau a ganlyn o ddysgu ar draws y Cwricwlwm:

**Y Cwricwlwm Cymreig**
**Cymru, Ewrop a'r Byd**
**Addysg Bersonol a Chymdeithasol**
**Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith**

Yn ogystal â'r thema ABCh isod:

**Dinasyddiaeth Weithgar**

# 01_Dod i adnabod dy Gynulliad di

## Gweithgaredd 01 – Her y Geiriadur:

Defnyddiwch eiriadur i ddod o hyd i ystyron y geiriau a ganlyn, ac yna ysgrifennwch frawddeg ar gyfer pob gair sy'n dangos beth yw ystyr y gair.

ee **Etholaeth**

Diffiniad geiriadur: grŵp o etholwyr mewn ardal benodol sy'n ethol unigolyn i'w cynrychioli ar gorff deddfwriaethol.

Fy mrawddeg i: Etholwyd Aelod Cynulliad newydd gan yr etholaeth yn 2011.

**01_Llywodraeth**

**02_Etholedig**

**03_Cynrychioli**

**04_Polisi**

**05_Craffu**

**06_Democrataidd**

**07_Pwyllgor**

**08_Cyfreithiau**

## Gweithgaredd 02 – Pwy yw pwy?

### Cwis y rhyngrwyd

Atebwch y cwestiynau a ganlyn gan edrych am y wybodaeth berthnasol ar wefan y Cynulliad (cynulliadcymru.org/aelodau).

- Pa bleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru?
- Sawl Aelod Cynulliad sy'n perthyn i bob un o'r pleidiau hyn?
- Pwy yw Prif Weinidog Cymru?
- Pwy yw'r Llywydd?
- Pwy yw'r Dirprwy Lywydd?
- Pwy yw Arweinydd yr Wrthblaid?
- Pwy yw'r Cwnsler Cyffredinol?

### Cwestiynau trafod:

- Beth yw swyddogaeth yr Wrthblaid?
- Pam ei bod yn bwysig cael Gwrthblaid?
- Pa bleidiau sy'n rhan o'r Wrthblaid yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru?

### Rheolau / Rheolau Sefydlog

Mae rheolau ynglŷn â beth y gall yr Aelodau ei wneud yn y Siambr; gelwir y rheolau hynny yn Rheolau Sefydlog.

- Pa reolau ddylai fod mewn grym mewn cyfarfod yn eich tyb chi?
- Pam fod rheolau yn bwysig?

Rhestrwch sefyllfaoedd eraill lle mae rheolau pendant yn bodoli.

## Gweithgaredd 03 – Darganfod eich partner

Cardiau i'r disgyblion. Bydd angen llungopïo, lamineiddio a thorri'r cardiau cyn y wers.

| | |
|---|---|
| **Aelodau Cynulliad** | Fe'u hetholir gan pobl Cymru i'w cynrychioli. |
| **Y Llywydd** | Y person sy'n cadw trefn yn y Siambr. |
| **Y Prif Weinidog** | Y person sy'n arwain y Llywodraeth. |
| **Cofnod y Trafodion** | Cofnod gair am air o'r cyfarfodydd a gynhelir yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. |
| **System bleidleisio** | Y ffordd o ddewis cynrychiolwyr. |

| | |
|---|---|
| **Aelodau Etholaethol** | Yr Aelodau sy’n cynrychioli etholaethau yng Nghymru ac a etholir drwy system ‘Y Cyntaf i’r Felin’. |
| **Aelodau Rhanbarthol** | Yr Aelodau sy’n cynrychioli rhanbarthau Cymru ac a etholir drwy ddefnyddio ffurf o gynrychiolaeth gyfrannol. |
| **Llywodraeth Glymblaid** | Mae hyn yn golygu bod cynrychiolwyr o fwy nag un blaid yn ffurfio llywodraeth. |

## Gweithgaredd 04 – Llinell Amser y Cynulliad

Yn 2009, dathlodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddeng mlynedd o ddatganoli. Edrychwch ar y rhestr o ddyddiadau allweddol. Defnyddiwch y wê i chwilio am wybodaeth a delweddau, wedyn gwnewch boster.

| | |
|---|---|
| **18 Medi 1997** | Refferendwm – canlyniad 50.3% o blaid a 49.7% yn erbyn sefydlu Cynulliad Cenedlaethol i Gymru. |
| **06 Mai 1999** | Cynnal etholiadau'r Cynulliad Cyntaf. |
| **25 Mai 1999** | Agoriad Brenhinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. |
| **01 Mai 2003** | Etholiadau'r Ail Gynulliad (2003 – 2007). |
| **01 Mawrth 2006** | Agoriad swyddogol y Senedd gan Ei Mawrhydi, y Frenhines. Cynrychiolwyr o Senedd De Cymru Newydd, Awstralia, yn cyflwyno'r Byrllysg. |
| **25 Gorffennaf 2006** | Deddf Llywodraeth Cymru (2006) yn derbyn Cydsyniad Brenhinol. |
| **03 Mai 2007** | Etholiadau'r Trydydd Cynulliad (2007 – 2011). |
| **12 Mehefin 2007** | Cyhoeddi'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (LCO) cyntaf (Anghenion Dysgu Ychwanegol). |
| **06 Mai 2008** | Pasio'r Mesur cyntaf yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, (y Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG 2007), a dderbyniodd Cydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2008. Dyma oedd y gyfraith ddwyieithog gyntaf i'w phasio ers y ddegfed ganrif. |
| **26 Mehefin 2008** | Agoriad swyddogol Siambr Hywel, Siambr Drafod Pobl Ifanc y Cynulliad. Ei Fawrhydi, Tywysog Cymru, yn bresennol. |
| **09 Rhagfyr 2009** | Enwi Carwyn Jones yn olynydd i Rhodri Morgan fel Prif Weinidog Cymru. |
| **03 Mawrth 2011** | Cynnal refferendwm ar bwerau deddfu pellach i Gymru. Y canlyniad: 63.5% o blaid, 36.5 % yn erbyn. |
| **05 Mai 2011** | Etholiadau'r Pedwerydd Cynulliad (2011 – 2016). |

## Gweithgaredd 05 – Cwis Rhifau

Dewch o hyd i atebion i’r cwestiynau hyn (bydd pob ateb yn rif). Rhowch y rhif yn y siâp hirgrwn (dewiswch o’r rhifau isod).

# 5, 5, 60, 40, 1999, 2016, 20

Nifer yr Aelodau Cynulliad.

Etholiad nesaf y Cynulliad.

Nifer yr etholaethau yng Nghymru.

Nifer y Pynciau cyfrifoldeb.

Cyfanswm yr Aelodau sy’n eich cynrychioli **chi**.

Nifer y rhanbarthau yng Nghymru.

Blwyddyn y cynhaliwyd yr etholiad Cynulliad cyntaf.

## Atebion Cwis Rhifau

| | |
|---|---|
| **60** | Nifer yr Aelodau Cynulliad. |
| **2016** | Etholiad nesaf y Cynulliad. |
| **40** | Nifer yr etholaethau yng Nghymru. |
| **20** | Nifer y Pynciau cyfrifoldeb. |
| **5** | Cyfanswm yr Aelodau sy'n eich cynrychioli **chi.** |
| **5** | Nifer y rhanbarthau yng Nghymru. |
| **1999** | Blwyddyn y cynhaliwyd yr etholiad Cynulliad cyntaf. |

# 02_Beth y mae’r Cynulliad yn ei wneud?

## Gweithgaredd 01 – 20 Pwnc

a) Edrychwch ar y poster sy’n dangos 20 Pwnc cyfrifoldeb Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae’r lluniau’n dangos y pethau y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt.

Allwch chi feddwl am unrhyw faterion y byddai’r Llywodraeth yn eu trafod fel arfer, ond sydd heb eu cynnwys? Trafodwch mewn grwpiau a rhannwch eich syniadau.

b) Dewiswch **UN** o’r Pynciau a ddangosir a chynlluniwch boster neu daflen i ddangos y ffyrdd gwahanol y mae’r ‘Pwnc’ hwnnw yn bwysig yn ein bywydau bob dydd (ee iechyd neu addysg).

## Gweithgaredd 02 – A all y Cynulliad wneud deddfau?

Edrychwch ar y sefyllfaoedd isod ynghyd â phoster yr 20 Pwnc.
A all y Cynulliad Cenedlaethol wneud deddfau ar y pynciau hyn?

01_Cynnwys cwricwlwm ysgol.

02_Codi lefel y trethi a delir gan weithwyr.

03_Cost presgripsiynau.

04_Cyllid myfyrwyr.

05_Bwydlenni ysgol.

06_Lles anifeiliaid.

07_Taliadau bonws i fancwyr.

08_Adeiladu morglawdd oddi ar arfordir De Cymru.

09_Cost alcohol (hynny yw, a dylid codi'r pris er mwyn osgoi yfed dan oed?).

10_Tynnu bwydydd afiach o beiriannau gwerthu mewn ysbytai.

## Gweithgaredd 03 – Cwis y Wê

Edrychwch ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru am:
www.senedd.cynulliadcymru.org/ieListMeetings.aspx?CommitteeId=153
a dewiswch agenda Cyfarfod Llawn. Wedyn, atebwch y cwestiynau a ganlyn:

- Nodwch ddyddiad a diwrnod y cyfarfod.
- Faint o'r gloch fydd y Cyfarfod yn dechrau?
- Pa Weinidog(ion) fydd yn ateb cwestiynau ar ddechrau'r cyfarfod?
- Nodwch **DDAU** o'r cwestiynau a gyflwynwyd, a nodwch hefyd pa
- Aelod Cynulliad fydd yn gofyn y cwestiynau.
- Dewch o hyd i bwnc un o'r dadleuon yn ystod y prynhawn a nodwch hwnnw hefyd.

Gallwch wylio'r cyfarfod yn fyw ar wefan y Cynulliad (senedd.tv); bydd gwneud hyn yn eich galluogi i wylio'r cwestiynau yn cael eu gofyn a'u hateb.

Ar ôl y cyfarfod, gallwch ddarllen cofnodion y cyfarfod ar wefan y Cynulliad. Enw'r ddogfen a gyhoeddir yw **Cofnod y Trafodion**, neu'r Cofnod. Yn y Cofnod, gallwch ddarllen yr atebion i'r cwestiynau yn llawn.

## Gweithgaredd 04 – Deddf Newydd

Ar gyfer y gweithgaredd hwn, bydd angen i chi edrych eto ar y poster sy'n dangos 20 Pwnc cyfrifoldeb y Cynulliad. Byddwch yn gweithio mewn grwpiau o bedwar neu bump. Bydd pob grŵp yn dewis **UN** o'r 20 Pwnc hyn. Gwaith pob grŵp fydd 'gwerthu'r' Pwnc y maent wedi'i ddewis i weddill y dosbarth, hynny yw, dangos iddynt pa mor bwysig yw'r Pwnc i'w bywydau bob dydd.

Bydd gofyn i chi gyflwyno eich Pwnc mewn ffordd greadigol a dychmygol. O bosibl, byddwch chi am ddefnyddio cyflwyniad PowerPoint, cerddoriaeth, chwarae rôl, gwaith celf, sloganau, areithiau ac ati.

Ar ddiwedd y gweithgaredd, bydd y dosbarth cyfan yn pleidleisio i benderfynu ar y cyflwyniad gorau.

# 03 Pwy sy'n fy nghynrychioli i?

## Gweithgaredd 01 – Rhinweddau cynrychiolwr

Byddwch yn gweithio mewn grwpiau ar y gweithgaredd hwn.

Fel grŵp, meddyliwch am y bobl sy'n ein cynrychioli a'r bobl y byddech efallai yn troi atynt i gael cymorth. Pa rinweddau sydd eu hangen ar y bobl hyn? Trafodwch y rhinweddau hyn gyda'ch grŵp, wedyn lluniwch restr o ansoddeiriau a fyddai'n disgrifio eich ymgeisydd delfrydol.

Gweithiwch gyda'ch grŵp i ysgrifennu swydd-ddisgrifiad ar gyfer Aelod Cynulliad, ac ysgrifennwch baragraff i ddisgrifio'r ymgeisydd delfrydol.

Cymharwch eich atebion ag atebion y grwpiau eraill. Pa mor debyg ydyn nhw? Sut y maent yn wahanol? A allwch chi gytuno, fel dosbarth, ar y rhinweddau y byddech chi yn eu cymeradwyo?

## Gweithgaredd 02 – Pwy yw fy nghynrychiolwyr?

| | Cynghorwr Lleol | Aelod Cynulliad (dewiswch1) | Aelod Seneddol | Aelod Seneddol Ewropeaidd (dewiswch 1) | Cynrychiolydd ar Gyngor yr Ysgol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw** | | | | | |
| **E-bost** | | | | | |
| **Cyfeiriad post** | | | | | |
| **Dwy ffaith ddiddorol am y person** | | | | | |
| **Ers pryd mae'r cyfrifoldeb ganddynt?** | | | | | |

- www.writetothem.com (i ddod o hyd i'ch cynghorwyr lleol, eich Aelodau Cynulliad (AC), Aelod Seneddol (AS) a'ch Aelod Seneddol Ewropeaidd(ASE)).
- www.theyworkforyou.com (i ddod o hyd i'ch Aelod Seneddol).
- www.cynulliadcymru.org (i ddod o hyd i'ch Aelodau Cynulliad).
- Gwefan eich cyngor lleol (i ddod o hyd i'ch cynrychiolwyr lleol).

## Gweithgaredd 03 – Cwrdd â’ch cynrychiolwyr

Dewiswch un o’r bobl sy’n eich cynrychioli chi ac ysgrifennwch e-bost neu lythyr sy’n eu gwahodd i ymweld â chi yn yr ysgol (gallai grwpiau gwahanol ysgrifennu at gynrychiolwyr gwahanol).

Ar ôl i chi drefnu ymweliad, trafodwch fel dosbarth sut y byddwch yn trefnu popeth ar y diwrnod. Pwy fydd yn croesawu’r person wrth iddynt gyrraedd? A fyddwch chi’n cynnig lluniaeth fel te neu goffi? A fydd angen i rywun gadeirio’r sesiwn holi? Pwy fydd yn diolch i’r person ar ddiwedd yr ymweliad? Ar ôl yr ymweliad, dylech chi ysgrifennu at y person a diolch iddynt am roi o’u hamser er mwyn ymweld â chi. A ddylai un person ymgymryd â’r gwaith ar ran y dosbarth, neu a ddylai pawb ysgrifennu?

Unwaith eich bod wedi trefnu ymweliad, gwnewch restr o gwestiynau y gallwch chi eu gofyn i’ch ymwelydd. A oes mater lleol yr hoffech ei drafod? Efallai yr hoffech ofyn pam y dewisodd y person fynd i fyd gwleidyddiaeth? Gofynnwch i’ch athro neu athrawes wneud yn siŵr bod y cwestiynau yn addas.

Ar ôl yr ymweliad, efallai yr hoffech chi drafod pa mor llwyddiannus ydoedd. Beth weithiodd yn dda? A oedd yna bethau y byddech chi’n eu gwneud mewn ffordd wahanol petaech yn ail-wneud y gweithgaredd?

## Gweithgaredd 04 – Diwrnod ym mywyd….

Edrychwch ar yr enghraifft isod o ddyddiadur Aelod Cynulliad, wedyn cwblhewch yr ymarferion isod:

| | |
|---|---|
| 06.00 | Dal y trên i Gaerdydd. Darllen y papurau ar gyfer y Cyfarfod Pwyllgor y bore 'ma. |
| 08.30 | Cyfarfod brecwast gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. |
| 09.30 | Cyfarfod Pwyllgor i drafod cyllid myfyrwyr ac i gymryd tystiolaeth gan gynrychiolwyr myfyrwyr. |
| 11.30 | Cyfarfod Grŵp Plaid. |
| 12.30 | Cwrdd ag ysgol ar ymweliad yn Oriel Gyhoeddus y Senedd. |
| 13.00 | Cyfarfod dros ginio gydag etholwr. |
| 13.30 | Cyfarfod Llawn<br>Gofyn cwestiwn i'r Prif Weinidog am gynnydd cynlluniau am ysbyty newydd yn yr ardal. |
| 18.00 | Cyfarfod Llawn yn gorffen. |
| 18.30 | Cyfweliad ar gyfer y teledu. |
| 19.00 | Derbynfa i weithwyr elusen NSPCC a gwirfoddolwyr – y Senedd. |
| 20.00 | Darllen e-byst a delio â gohebiaeth. |
| 21.00 | Gadael am adref. |

- Crëwch fwrdd stori yn dangos diwrnod ym mywyd Aelod Cynulliad.
- Ysgrifennwch adroddiad o'r diwrnod (adroddiad llawn yn y person cyntaf).
- Ydych chi'n meddwl y byddech chi'n hoffi gweithio fel Aelod Cynulliad? Pam, neu pam ddim?
- Beth fyddai manteision ac anfanteision y math yma o swydd? (rhestrwch rai ohonynt).

# 04_Mae Democratiaeth yn fyw – ocê!

## Gweithgaredd 01 – Dadl Dosbarth

Dylech baratoi ar gyfer y ddadl gan ymchwilio i'r pwnc gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau, fel papurau newydd a chylchgronau, y rhyngrwyd a'ch llyfrgell leol, neu ofyn i bobl fel aelodau'r teulu neu gymdogion a fydd, efallai, yn gwybod rhywbeth am y pwnc.

Bydd angen sicrhau eich bod yn casglu gwybodaeth o blaid ac yn erbyn y pwnc (cynnig), i sicrhau bod y ddadl yn deg ac yn gytbwys. Efallai y byddwch eisiau gweithio mewn grwpiau i'r diben hwn.

Dyma rhai pynciau y gallech eu trafod (pam na wnewch chi ychwanegu at y rhestr?):

- Dylid gwneud Cymru yn wlad heb fagiau plastig
- Ni ddylid caniatáu siopau sy'n gwerthu 'bwyd sydyn' o fewn hanner milltir i ysgol
- Dylai pawb ddefnyddio'r ffyrdd mwyaf gwyrdd o deithio
- Dylid caniatáu i bobl ifanc 16 oed bleidleisio mewn etholiadau
- Dylid gwahardd gwelyau haul awtomataidd

Beth am edrych ar agendâu'r Cyfarfod Llawn a Chyfarfodydd Pwyllgor yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i weld a oes mater sy'n cael ei drafod a fyddai'n bwnc addas ar gyfer trafodaeth dosbarth?

## Gweithgaredd 02 – Pa mor anodd yw gwneud penderfyniadau?

Yn y gweithgaredd hwn, byddwch yn gweithio mewn grwpiau er mwyn cyflwyno safbwyntiau gwahanol ar bwnc llosg. Dylai bob grŵp ddewis llefarydd a fydd yn gyfrifol am gyflwyniad 3 – 4 munud i'r dosbarth cyfan cyn agor y drafodaeth i gyfraniadau gan unrhyw aelod o'r dosbarth.

Mae tabl ar gael i chi gofnodi ystyriaethau o effaith posibl y penderfyniad hwn.

**Y sefyllfa:**
Yn dilyn toriadau yng nghyllid Addysg, mae'r cyngor lleol yn gorfod ystyried cau ysgol leol. Bydd hyn yn golygu:
- colli / toriadau yn swyddi athrawon
- bydd yn rhaid i blant sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd deithio pellter sylweddol
- defnyddir yr ysgol hefyd fel canolfan gymunedol, ac fe gynhelir nifer o weithgareddau yno. Bydd yr adnodd hwn yn cael ei golli.

Mae cyfarfod cyhoeddus wedi ei alw i drafod y sefyllfa. Byddwch yn chwarae rhan y cymeriadau a ddisgrifir ar **dudalen 19**. Dylech weithio mewn grwpiau o bedwar neu bump.

Byddai'n bosibl ailadrodd y gweithgaredd gan ddefnyddio sefyllfa wahanol – efallai rhywbeth sy'n bwnc llosg yn yr ardal leol. Eto, gallwch baratoi eich rôl o flaen llaw.

## Gweithgaredd 02 (parhad)

## Cardiau chwarae rôl

| | |
|---|---|
| **Tom Davies, Aelod Cynulliad Etholaethol**<br>Ddim o blaid cau'r ysgol, ond yn ymwybodol bod yr adeilad yn hen a hefyd y bydd atgyweirio'r adeilad yn ddrud iawn. | **Helen Jones, rhiant ac ysgrifennydd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol.**<br>Yn amlwg yn erbyn cau'r ysgol. Nid oes ganddi gar a byddai hi'n gorfod mynd â'i phlant i'r ysgol ar y bws. Mae ei phlant hi yn hapus iawn yn yr ysgol. |
| **Mike Smith, cynrychiolydd Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)**<br>Yn pryderu'n fawr am golli swyddi dysgu. | **Jenny Thomas, Pennaeth yr ysgol**<br>Yn amlwg, nid yw hi am weld yr ysgol yn cau. Aeth ei merch i'r ysgol ac mi roedd hi'n hapus iawn yno. |
| **Richard Hughes, cynghorydd lleol**<br>Yn cynrychioli'r ward lle leolir yr ysgol ac yn pryderu'n fawr am y cau ac am golli cyfleusterau yn y gymuned leol. Serch hynny, mae e'n aelod o'r blaid sy'n rhedeg y cyngor ac yn ymwybodol bod angen gwneud toriadau. | **Jim Roberts, perchennog siop leol**<br>Mae Jim yn berchen ar siop drws nesaf i'r ysgol ac yn pryderu'n fawr am golli busnes pan fydd yr ysgol yn cau. |
| **Robin Williams, rhiant**<br>Mae gan Robin ddau o blant yn yr ysgol yn barod, yn ogystal â phlentyn iau sydd i fod i ddechrau ym mis Medi. Mae'r ddau blentyn wedi bod yn hapus iawn yn yr ysgol ac mae ef am weld y tri yn derbyn eu haddysg yno. | **Mary Vaughan, rhiant**<br>Mae Mary yn fam i blentyn sydd ag anawsterau dysgu. Mae hi wedi bod yn hapus iawn â'r gefnogaeth i'w mab ac mae hi'n pryderu y bydd symud i ysgol newydd yn achos pryder iddo ac yn effeithio ar ei gynnydd. |
| **Frank Barber, Arweinydd y Cyngor**<br>Yn gwybod na fydd y penderfyniad yn un poblogaidd, ond mae'n rhaid i'r cyngor wneud arbedion enfawr ac nid yw'n credu bod dewis arall ar gael. Mae e'n fodlon y bydd digon o lefydd gwag yn yr ysgolion lleol ar gyfer y disgyblion a fydd yn gorfod symud. | |

## Gweithgaredd 02 (parhad)

**Tabl i'w ddefnyddio yn ystod eich trafodaeth gychwynnol ar y mater o gau'r ysgol leol.**

Dylech ystyried atebion posibl i gwestiwn cau'r ysgol ac yna llenwi'r tabl. Ar gyfer pob ateb posibl, dylech ystyried goblygiadau ariannol y penderfyniad a phwy yr effeithir arnynt.

| Datrysiad posibl | Goblygiadau ariannol | Yn effeithio ar bwy? |
| --- | --- | --- |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

## Gweithgaredd 03 – Pleidleisio yn 16 oed?

Mae nifer o bobl a sefydliadau wedi codi’r posibiliad o ostwng yr oed pan fydd pobl ifanc yn gallu pleidleisio. Mae rhai’n awgrymu y dylai’r oedran fod yn 16. Edrychwch ar y dadleuon o blaid ac yn erbyn y cynnig, wedyn trafodwch yn eich grwpiau. Efallai y gellid cynnal dadl yn y dosbarth a phleidlais i ddilyn.

Edrychwch ar [www.votesat16.org.uk](http://www.votesat16.org.uk).

**Mae pobl 16 oed yn gorfod talu trethi, felly dylen nhw gael pleidleisio.**

**A wnaiff e wahaniaeth? A fydd mwy o ddiddordeb gan bobl yn 16 oed?**

**Nid yw pob person 16 oed yn aeddfed, ond nid yw pob oedolyn yn aeddfed chwaith!**

**Mae dros 40 mlynedd ers i’r oedran gael ei ostwng i 18.**

**Byddai gwleidyddion yn fwy tebygol o wrando ar bobl ifanc petaen nhw’n gallu pleidleisio.**

**Mae’r nifer o bobl rhwng 18 a 25 oed sydd yn pleidleisio yn isel iawn. A fyddai pobl 16 oed yn pleidleisio?**

**Dim ond yn y flwyddyn 1928 y cafodd pob menyw yr hawl i bleidleisio. Mae hynny yn edrych yn wirion nawr.**

**Byddai angen mwy o addysg gwleidyddol yn yr ysgolion.**